**Eitem ar yr agenda: 8**

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 27 MAWRTH 2006 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | ALLDRO AMCANOL 2005-2006 |

1. Mae'r atodlen sydd ynghlwm yn cynnwys yr alldro amcanol am y flwyddyn ariannol 2005-2006, ac yn nodi y bydd £320,032 o danwariant. Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 19 Rhagfyr 2005, cytunwyd i ddefnyddio £250,000 o danwariant 2005-2006 i ariannu cynydd yn y gyllideb yn 2006-2007.

2. Y prif faes lle ceir tanwariant yw cyflogau, sef £175,619, yn bennaf mewn perthynas â'r Diffoddwyr Tân Rhan Amser. Yn y blynyddoedd a fu, roedd y tanwariant a adroddwyd ar gyflogau yn gallu bod gymaint â £900,000. Bydd yr aelodau'n ymwybodol fod ariannu cyllideb y diffoddwyr tân rhan amser yn y gorffennol yn seiliedig ar gael llu llawn. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r gyllideb gael ei seilio ar y lefelau disgwyliedig o weithgarwch, gan gynnwys arian ar gyfer amgylchiadau na ellir eu rhagweld, megis y tywydd.

3. Tynnir sylw'r Aelodau at y meysydd canlynol lle cafwyd gorwariannau uchel, sydd y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub:

- Cynyddwyd y Trethi Lleol o ganlyniad i ailbrisio eiddo'r Gwasanaeth Tân. Gwnaed apeliadau yn erbyn 25 o gynyddiadau, ond bydd yn cymryd amser i ddatrys y rhain yn derfynol.
- Cafwyd cynnydd cyffredinol mewn costau tanwydd.
- Mae'r hysbysebu ar gyfer staff yn dangos gorwariant uchel oherwydd yr ymgyrch recriwtio am Ddiffoddwyr Tân Rhan Amser a chyfradd uwch na'r arfer am staff cefnogol o ganlyniad i drosiant staff a swyddi newydd.
- Mae'r costau cyfrifiadurol hefyd yn dangos gorwariant, yn bennaf oherwydd adolygu'r cytundebau cynnal a chadw ar gyfer cyfrifiaduron.
- Bydd y taliadau prydlesu hefyd yn dangos gorwariant oherwydd bod rhai o'r prydlesau'n dod at ddiwedd eu cyfnod cychwynnol a'r offer yn cael ei gadw gan y gwasanaeth – nid yw'r gyllideb ond yn caniatáu ar gyfer y cyfnod prydlesu cychwynnol gan mai'r disgwyl yw i'r offer gael ei ddychwelyd.

4. Cafwyd incwm ychwanegol:

- Mae'r llog ar falansau'n dangos £95,000 o incwm ychwanegol oherwydd y lefelau uchel o ddarpariaethau sydd gan yr Awdurdod.
- Mae incwm cyrsiau hyfforddi wedi cynyddu'n sylweddol, i £52,594, oherwydd trosglwyddo incwm y Tîm Diogelwch Tân Masnachol o gyfrif masnachu i'r cyfrif refeniw.

5. Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2005, wedi cytuno i gael gwared ar ddwy swydd. Bydd rhai o'r costau sy'n dilyn o

hynny i'w talu yn 2006/2007, ac argymhellir cario balans y tanwariant drosodd i gwrdd â'r costau hynny.

6. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o achos cyfreithiol sydd yn mynd rhagddo ers tro ynghylch Rheoliadau Diffoddwyr Tân Rhan Amser a Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol) a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2000. Roedd Cyflogwyr Cenedlaethol y Brigadau Tân o'r farn, wedi cael cyngor cyfreithiol, nad oedd y Rheoliadau'n rhoi unrhyw hawl i Ddiffoddwyr Tân Rhan Amser gael eu trin yr un fath â Diffoddwyr Tân Llawn Amser. Roedd Undeb yr FBU yn herio'r farn hon, ac ar 1 Mawrth 2006 fe gefnogwyd apêl yr Undeb gan yr Arglwyddi Apêl. Fodd bynnag, mae'r Ty'r Arglwyddi wedi penderfynu y dylai'r hawliad ddychwelyd i'r Tribiwnlys Cyflogaeth i ystyried y materion ymhellach, yn seiliedig ar yr arweiniad roddwyd gan Dy'r Arglwyddi. Gallai hyn roi hawl i staff ar y system dyletswydd ran amser gael yr un amodau gwasanaeth â diffoddwyr tân llawn amser; hynny yw, yr un hawliau pensiwn, tâl salwch, gwyliau a chyfradd cyflog.

   Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, ni ellir cyfrifo'r canlyniadau ariannol gan nad yw holl ffeithiau'r dyfarniad yn hysbys eto. Pan fydd manylion y dyfarniad yn eglur, rhoddir adroddiad i'r Aelodau yn amlinellu'r canlyniadau ariannol i'r Awdurdod Tân.

7. **ARGYMHELLIAD**

   **Neilltuo £70,000 o danwariant 2005-2006 i greu Darpariaeth ar gyfer Diswyddiadau.**

K W Finch
**TRYSORYDD**

**<u>10 Mawrth 2006</u>**

(PAS06 : Fire Authority – Outturn Report)